Eginiad Creu Cymru 2013-14
Yr Adroddiad Terfynol

Grant SSL023 Cyfnod 2 Amgylchedd Cymru

Ariennir y gwaith hwn gan gynllun Cefnogi Byw'n Gynaliadwy Llywodraeth Cymru a'i gyflenwi gan Amgylchedd Cymru a Cynnal Cymru.

Cynnwys

1. Am y Partneriaid a'r Cyfranogwyr
2. Cefndir
3. Y Prosiect
4. Allbynnau'r Rhaglen
5. Manteision Eraill
6. Gwersi a Ddysgwyd
7. Y Camau Nesaf
8. Myfyrio
9. Cloi

Atodiadau

Atodiad 1: Adroddiad Cynnal – wedi'i atodi fel dogfen ar wahân
Atodiad 2: Agenda o Ŵyl Cynllunio Llwyfan y Byd
Atodiad 3: Agenda Digwyddiad Olaf Eginiad
Atodiad 4: Cofnod Ymgysylltu
Atodiad 5: Gwerthuso Gweminarau

1. Am y Partneriaid a'r Cyfranogwyr

Y Partneriaid

Creu Cymru yw'r asiantaeth ddatblygu ar gyfer theatrau a chanolfannau celfyddydau yng Nghymru. Ei chenhadaeth yw datblygu sector egnïol a blaengar drwy gydweithredu creadigol, arwain y sector a'r arferion gorau.

Sefydliad dielw yw Julie's Bicycle sy'n gwneud cynaliadwyedd yn gynhenid i fusnes, celf a moeseg y diwydiannau diwylliannol. Yn cydweithio ar hyn o bryd â thros 2,000 o sefydliadau diwylliannol yn y DU ac Ewrop, mae Julie's Bicycle yn cynnig offer ar-lein am ddim, ymchwil ac ymgynghori wedi'i deilwra i helpu sefydliadau celfyddydau i fesur, rheoli a lleihau eu heffeithiau amgylcheddol.

Mae Julie's Bicycle yn pontio'r bwlch rhwng y diwydiannau creadigol a chynaliadwyedd. Yn seiliedig ar ymchwil a adolygir gan gymheiriaid, maent yn cynnal creadigrwydd gan alluogi'r celfyddydau i greu newid.

Sefydliad rhwydweithio yw Cynnal Cymru sy'n galluogi pobl i ddysgu oddi wrth ei gilydd a darganfod prosiectau arferion da diddorol yng Nghymru. Mae'n cydweithio â phobl a sefydliadau ar draws ystod eang o faterion - o newid yn yr hinsawdd i'r economi ac o fasnach deg i iechyd – gan gynyddu ymwybyddiaeth o faterion cynaliadwyedd ac enghreifftiau o arferion da a chodi ymwybyddiaeth o adnoddau ymarferol er mwyn annog byw'n gynaliadwy yng Nghymru.

Crynodeb o'r Prosiect

Prosiect peilot oedd Eginiad Creu Cymru a'i nod oedd adnabod rhwystrau sy'n gysylltiedig â newid ymddygiad ac agweddau sy'n creu ymddygiadau carbon-arferol. Yn arbennig, buom yn edrych ar yr wybodaeth, yr adnoddau a'r mynediad i wybodaeth sydd ar gael;

bu'r peilot yn canolbwyntio ar dri phrif faes llafur:

- ymgysylltiad staff/rhanddeiliaid
- cyfleusterau ac adeiladau; mesur ynni a gwastraff yn bennaf
- rhaglennu a chynhyrchu artistig

Bu'r prosiect yn gweithio â chanolfannau peilot drwy gyfuniad o fecanweithiau a dargedir a dulliau megis cefnogaeth 1 i 1 a digwyddiadau rhwydweithio a dysgu gan gymheiriaid i helpu i sefydlu ymddygiadau carbon mwy cynaliadwy ar draws fframweithiau sefydliadol. Buom yn cydweithio â'r cyfranogwyr i adnabod ac ymdrin â phroblemau a rhwystrau a chreu cyfleoedd i rannu profiadau a dysgu.

Roedd y grŵp peilot yn cynnwys 18 o theatrau a chanolfannau ar draws Cymru:

Canolfan Diwylliant a Chynadledda'r Metropole, Abertyleri
Canolfan Mileniwm Cymru, Caerdydd
Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth
Chapter, Caerdydd
Galeri, Caernarfon
Glan yr Afon, Casnewydd
Neuadd Dewi Sant a'r New Theatre, Caerdydd

Neuadd Dwyfor, Pwllheli
Theatr Brycheiniog, Aberhonddu
Theatr Hafren, y Drenewydd
Theatr Mwldan, Aberteifi
Theatr Park & Dare, Treorci
Theatr y Congress, Cwmbrân
Theatr y Fwrdeistref, y Fenni
Theatr y Torch, Aberdaugleddau
Sherman Cymru, Caerdydd
Y Neuadd Les, Ystradgynlais

2. Cefndir

Yn 2012 rhoddwyd grant Cefnogi Byw'n Gynaliadwy Cyfnod 1 i Creu Cymru. Fe ddefnyddion ni'r grant hwn i gasglu data sylfaenol oddi wrth y 42 o aelodau sydd gan Creu Cymru, gan edrych ar batrymau defnyddio ynni, gwastraff, dŵr, ailgylchu a theithio. Roeddem am adnabod cyfleoedd i leihau carbon a gwastraff ac adnabod y symudiadau ymddygiadol a diwylliannol a all fod eu hangen i gyflawni hyn.

Yn ystod y prosiect Cyfnod 1, nid oeddem yn gallu sefydlu gwaelodlin glir ar draws y grŵp oherwydd nad oedd gan lawer o'r canolfannau'r systemau cofnodi neu fonitro angenrheidiol yn eu lle. Oherwydd hyn, buom yn edrych ymhellach ar yr heriau roedd theatrau a chanolfannau celfyddydau yn eu hwynebu wrth ddatblygu a chyflwyno eu gwaith mewn ffordd fwy cynaliadwy. Bu'r prosiect Cyfnod 2 hwn yn canolbwyntio'n benodol ar 3 phrif faes llafur: ymgysylltiad staff/rhanddeiliaid; cyfleusterau ac adeiladau; a rhaglennu a chynhyrchu artistig.

Roeddem am greu prosiect peilot a fyddai'n galluogi Creu Cymru i ystyried a phrofi amrywiaeth o fecanweithiau ac offer i gefnogi theatrau a chanolfannau celfyddydau wrth sefydlu ymddygiadau mwy cynaliadwy ar draws eu sefydliadau, gan gael effaith uniongyrchol ar leihau carbon a'u gwariant. Roeddem hefyd am ddeall mwy am rôl y celfyddydau wrth adrodd ein stori gynaliadwyedd, cyfleu syniadau a gwybodaeth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid a chynulleidfaoedd (gan effeithio ar gynaliadwyedd cymdeithasol).

Gan ddefnyddio'r prosiect hwn fel peilot, roeddem am ddysgu am beth oedd yn gweithio a beth nad oedd yn gweithio, gan obeithio cyflwyno rhaglen yn y dyfodol i'r rhwydwaith ehangach o theatrau a chanolfannau celfyddydau yng Nghymru. O fewn cyd-destun ehangach Bil Cenedlaethau'r Dyfodol a'r angen i sefydliadau celfyddydau ddod yn fwy addasadwy a chryf, mae Creu Cymru'n cydnabod y bydd mynd i'r afael â meysydd cynaliadwyedd yn allweddol i ddyfodol y sector hwn.

Yn ystod Cyfnod 1 prosiect Eginiad Creu Cymru, buom yn cydweithio â phob un o'r 42 o aelodau sydd gan Creu Cymru. I fynd â'r gwaith hwn rhagddo, roedd angen i ni weithio gyda grŵp llai o faint a gofynnon ni i'r theatrau a'r canolfannau wirfoddoli ar gyfer y peilot. Drwy'r alwad agored hon, sefydlwyd grŵp amrywiol gennym o 18 o theatrau a chanolfannau celfyddydau, gyda phob un yn ei gynnig ei hun i fod yn rhan o'r peilot.

Mae'r grŵp yn amrywio o Ganolfan Mileniwm Cymru yng Nghaerdydd i Neuadd Dwyfor ym Mhwllheli. Mae'n cynnwys canolfannau a reolir gan awdurdodau lleol, ymddiriedolaethau elusennol a theatrau ar gampysau prifysgolion. Maent yn amrywio'n enfawr o ran maint, graddfa, personél, adnoddau a daearyddiaeth; mae'r amrywiaeth yma'n cynrychioli'r rhwydwaith ehangach yn dda a darparodd heriau a chyfleoedd i'r prosiect.

Grŵp mawr yw 18 i unrhyw brosiect peilot. Fodd bynnag, teimlem ar gychwyn y prosiect os oedd sefydliadau'n fodlon gwirfoddoli ac ymrwymo i'r prosiect, dylid cydnabod y parodrwydd hwnnw a manteisio ar y brwdfrydedd.

Mae amseru'r prosiect hwn yn eithaf arwyddocaol; mae'r cyd-destunau deddfwriaethol, economaidd a gwleidyddol presennol wedi creu heriau a chyfleoedd i Eginiad Creu Cymru.

Mae'r prosiect hwn yn digwydd yn erbyn cefndir o doriadau ariannol gan awdurdodau lleol i nifer o wasanaethau gan gynnwys sefydliadau'r celfyddydau. I theatrau a chanolfannau celfyddydau, mae cael hyd i ffordd newydd o weithredu yn sgil y newid hwn mewn amgylchiadau economaidd yn flaenoriaeth a hefyd yn her enfawr. Ar yr un pryd, mae awdurdodau lleol yn cael eu gorfodi i ystyried ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau a chydweithio â'u cymunedau. Gallai hyn oll gynnig cyfleoedd mawr o ran gweithio mewn partneriaeth neu ar y cyd. Ceir hefyd lai o gyllid gan Gyngor Celfyddydau Cymru a'r Loteri, dwy o brif ffynonellau incwm theatrau a chanolfannau celfyddydau. Cyfunir hyn â fframwaith ariannu sydd i'w weld yn gofyn mwy gan y sector o ran cyflawni agendâu polisi ehangach. Mae'r holl gyd-destun hwn yn rhoi'r cyfranogwyr o dan bwysau enfawr i ddarparu mwy am lai, a sicrhau arbedion effeithlonrwydd ac eraill ar draws ystod o adnoddau.

Bydd y cyd-destun gwleidyddol a deddfwriaethol ehangach, gan gynnwys datblygu Bil Cenedlaethau'r Dyfodol, yn gofyn bod sefydliadau'n meddwl yn wahanol am eu busnesau. Fe ymddengys fod hyn hefyd yn cael ei adlewyrchu mewn symudiadau cymdeithasol a diwylliannol, gyda mwy o randdeiliaid: cynulleidfaoedd ac artistiaid; cyflenwyr; partneriaid; cyllidwyr sy'n ystyried cynaliadwyedd ac sydd am newid y sgwrs sy'n digwydd ynglŷn â'r byd rydym am fyw ynddo. Mae mentrau megis 'Y Gymru a Garem' yn gyfle heb ei ail i theatrau a chanolfannau celfyddydau ddangos sut gall y celfyddydau a diwylliant ysgogi, cefnogi a bod yn gatalydd i newid.

Rhan o effaith ehangach a llai amlwg prosiect Eginiad Creu Cymru fu cydweithio â chyfranogwyr i'w helpu i ddeall y cyd-destun hwn: i ddangos sut bydd angen i Gynaliadwyedd fod wrth graidd Canolfan Gelfyddydau'r Dyfodol ac i ddangos yn ehangach sut mae gan y celfyddydau a diwylliant rôl i'w chwarae wrth greu a chynnal gwell Cymru i'r dyfodol.

3. Y Prosiect

Nodau

Nod y prosiect oedd adnabod y gwahanol rwystrau y mae theatrau a chanolfannau celfyddydau'n eu hwynebu wrth ymgorffori cynaliadwyedd yn eu sefydliadau. Yn enwedig, buom yn ystyried arbenigedd, adnoddau, mynediad i wybodaeth ac agweddau sy'n creu ymddygiadau carbon-arferol.

Cydweithiodd y prosiect peilot hwn â chanolfannau cyfranogol drwy gyfuniad o fecanweithiau a dulliau, gan geisio adnabod modelau o arferion da a methodoleg y gellid eu cyflwyno i'r rhwydwaith ehangach.

Trosolwg ac Amcanion

- Ymgysylltu â 18 o theatrau a chanolfannau celfyddydau yn y prosiect peilot ar draws Cymru
- Cyflwyno 6 gweminar fel cyfle hyfforddi yn ogystal â fforwm ar gyfer rhannu arferion da sy'n ymdrin â'r themâu canlynol: Cyflwyniad i Gynaliadwyedd, Rheoli Ynni a Gwastraff, Cynhyrchu Cynaliadwy, Cyfathrebu, Syniadaeth Strategol a Llywodraethu Cynaliadwy, Rhaglennu
- Cynllunio a chyflwyno tri digwyddiad gan gynnwys presenoldeb yng Ngŵyl Cynllunio Llwyfan y Byd
- Creu pecyn cynaliadwyedd pwrpasol i theatrau a chanolfannau celfyddydau yng Nghymru, gan edrych ar arferion da a darparu gwybodaeth a chefnogaeth ar draws amrywiaeth o themâu
- Cynorthwyo canolfannau i adnabod gwelliannau mesuradwy mewn perfformiad amgylcheddol ac i leihau allyriadau carbon
- Datblygu storfa arferion da gan gynnwys astudiaethau achos, arweiniad, gwybodaeth ac ysbrydoliaeth drwy wefan Creu Cymru
- Datblygu cymuned arferion da sy'n ymrwymedig i wybodaeth a gwelliannau parhaus, drwy annog dysgu gan gymheiriaid
- Ystyried ffyrdd y gall y theatr a chelf gyfleu neges cynaliadwyedd i gynulleidfa ehangach

Targedau

Nod	Targed	Canlyniad
Ymgysylltu â theatrau a chanolfannau celfyddydau	18	Bu 70% o'r theatrau a'r canolfannau celfyddydau cyfranogol yn cymryd rhan yn y prosiect. Ceir tabl sy'n dangos y lefelau ymgysylltu â gweithgarwch y prosiect yn Atodiad 4
Cyflwyno gweminarau	6	Cyflwynwyd 3 gweminar gennym: Cyflwyniad i Gynaliadwyedd, Rheoli Ynni a Gwastraff; Rheoli

		Cynhyrchu Cynaliadwy
Cyflwyno digwyddiadau	3	Cyflwynwyd 3 digwyddiad gennym: Gŵyl Cynllunio Llwyfan y Byd; Cynhadledd Creu Cymru; Digwyddiad Olaf Eginiad
Pecyn Cymorth	PDF / rhan o adnodd y wefan (?)	Roedd y pecyn cymorth wedi'i gynllunio a'i ddatblygu gan Julie's Bicycle
Gwelliannau amgylcheddol mesuradwy	Gostyngiad 10% mewn allyriadau carbon gan o leiaf 4 canolfan gyfranogol (y rheini sydd eisoes yn mesur eu defnydd ynni). Y canolfannau eraill i sefydlu gweithdrefnau mesur rheolaidd.	Oherwydd monitro ac adrodd anghyson, bu'n anodd mesur y gwir ostyngiadau carbon gan y cyfranogwyr. Ond mae gwelliannau mesuradwy eraill wedi cael eu gwneud fel a welir yn y tabl yn adran 4 yr adroddiad hwn
Storfa Arferion Da	Gwefan	Wedi'i chreu ar wefan Creu Cymru
Cymuned arferion da	Gwefan	Wedi'i chreu ar wefan Creu Cymru
Cyfathrebu		Gweithdy ar ddweud eich stori gynaliadwyedd gyda'r Ymddiriedolaeth Garbon a sgwrs gan Sarah Woods yn y Digwyddiad Olaf.

Mesur ac Adrodd

Bu'r mesur i gael tystiolaeth ar gyfer y canlyniadau targed uchod fel a ganlyn:

- Cyfathrebu rheolaidd â theatrau a chanolfannau celfyddydau cyfranogol drwy e-bost ac ar y ffôn
- Sesiynau 1 i 1 â Julie's Bicycle
- Monitro cyfranogi mewn gweminarau a digwyddiadau a gwerthuso pob gweithgaredd
- Monitro defnydd cyfranogwyr o feddalwedd fonitro Creative IG Tools, Smeasure a Wattson
- Tystiolaeth ansoddol gan gynrychiolydd pob theatr a chanolfan gyfranogol mewn cysylltiad â diwylliant a syniadau ei sefydliad
- Cynhaliwyd Archwiliadau Ynni gan Cynnal ar ran Ymddiriedolaeth Garbon Cymru

4 Allbynnau'r rhaglen

Canlyniadau Gweithgarwch y Prosiect

Gweminarau

Cyflwynwyd tair gweminar gennym:

- Cyflwyniad i Gynaliadwyedd
- Rheoli Ynni a Gwastraff
- Cynhyrchu Cynaliadwy

Bwriad y gweminarau oedd galluogi canolfannau cyfranogol i ddod ynghyd mewn fforwm digidol i dderbyn hyfforddiant yn ogystal â darparu cyfle i rannu arferion da. Dosbarthwyd dyddiadau'r gweminarau a'r agendâu cyn pob sesiwn ac roedd lle am fwy nag un person o bob sefydliad i fod yn bresennol, gan alluogi ymgysylltu traws-sefydliadol. Mae pob gweminar hefyd ar gael ar wefan Creu Cymru i gyfranogwyr ailymweld â hi'n nes ymlaen neu i gyfranogwyr nad oeddent yn gallu ei mynychu.

Roedd yr adborth o'r gweminarau'n gadarnhaol iawn ond daethom yn ymwybodol yn fuan iawn fod lefel y cyfranogi ar draws y grŵp peilot yn isel a bod ymgysylltu yn y trafodaethau yn ystod y gweminarau hefyd yn gyfyngedig. Cawsom fod nifer o sefydliadau wedi profi anawsterau technolegol, naill ai o ran cyflymder y cysylltiadau a olygai ei bod yn anodd rhyngweithio a dilyn y weminar, neu gyda rheoliadau TG rhiant-sefydliadau megis awdurdodau lleol a phrifysgolion, a fynnai wahanol lefelau o ddiogelwch gan greu rhwystrau rhag cyfranogi.

Cawsom hefyd fod cyfranogwyr yn llai cyfarwydd â gweithio yn y modd yma, sef defnyddio technoleg ddigidol i gyfathrebu ac felly teimlent yn fwy swil nag arfer wrth gyfarfod wyneb yn wyneb. Roedd diffyg cynefindra â'r dechnoleg yn rhwystr i rai.

Gan roi ystyriaeth i'r dysgu yma, penderfynodd tîm y prosiect nad y mecanwaith cywir oedd y gweminarau i gefnogi ac ymgysylltu â'r grŵp peilot ac ar ôl cyflwyno'r tair sesiwn gyntaf, penderfynwyd symud ffocws y rhaglen i ymgysylltu uniongyrchol drwy gefnogaeth 1 i 1 a mwy o gyfleoedd i gwrdd wyneb yn wyneb.

Digwyddiadau

Cynhaliwyd tri digwyddiad gennym ar draws y prosiect (ceir agendâu manylach yn yr Atodiad).

Yng Ngŵyl Cynllunio Llwyfan y Byd, buom yn cynnal sesiwn oedd yn edrych ar gynaliadwyedd a chydnerthedd. Bwriad y sesiwn oedd edrych ar y ffordd y gall rhwydweithiau a chydweithio wella arferion cynaliadwy. Cafwyd cyfraniadau gan Mark Godber o Arts Admin – yn sôn am brosiect Imagine 2020 – a chan Julie's Bicycle, yn ogystal â gwybodaeth am brosiect Eginiad Creu Cymru.

Yn 2013, neilltuodd Creu Cymru ei gynhadledd flynyddol i Eginiad gyda chyflwyniadau gan Deborah Rees o Theatr y Roses yn Tewkesbury yn siarad am Gynaliadwyedd Cymdeithasol a chan Andy Fryers, Cyfarwyddwr Cynaliadwyedd Gŵyl y Gelli Gandryll a siaradodd am ymagwedd yr Ŵyl tuag at gynaliadwyedd. Hefyd, bu cynhadledd Creu Cymru'n gyfle i lansio pecyn cymorth Eginiad, gyda chyflwyniad rhagarweiniol gan Julie's Bicycle a chyfraniadau gan Ymddiriedolaeth Garbon Cymru.

Ym mis Mehefin 2014, cyflwynon ni ddigwyddiad olaf Eginiad Creu Cymru a ddygodd at ei gilydd rywfaint o'r dysgu a gafwyd drwy'r prosiect gan roi cyfle i gyfranogwyr i fyfyrio ar eu profiadau a'u rhannu. Bu'r digwyddiad yn cynnwys amrywiaeth o faterion, gyda chyflwyniadau ar theori newid ymddygiad, gweithdy ar adrodd eich stori gynaliadwyedd a sgyrsiau gan artistiaid megis Sarah Woods.

Gwefan

Rydym wedi datblygu adnodd digidol ar wefan Creu Cymru sydd wedi'i ddiweddaru drwy gydol y prosiect. Cafwyd postiadau blog rheolaidd gan reolwr y prosiect gyda gwybodaeth am wahanol fentrau a dolenni â nhw, eitemau newyddion neu ysgogiadau – mae'r rhain i gyd wedi'u hamlygu drwy gyfryngau cymdeithasu megis trydar gan ddefnyddio'r hashnod #ccemergence. Gellir gweld 'storify' sy'n cynnwys peth o'n gweithgarwch digidol ar wefan Creu Cymru.

Rydym hefyd wedi tynnu at ei gilydd amrywiaeth o adnoddau gan gynnwys dolenni â chanllawiau, sefydliadau cymorth, mentrau gwyrdd ac astudiaethau achos. Hefyd, rydym wedi sicrhau bod holl adnoddau'r prosiect ar gael yn ddigidol, gan gynnwys gweminarau; cyflwyniadau'r gynhadledd a phecynnau cymorth. Mae hyn wedi ein helpu i adeiladu storfa arferion da a dechrau adeiladu cymuned o gwmpas yr arferion hyn wrth i wybodaeth a phrofiad gael eu rhannu drwy astudiaethau achos a chyfathrebu rheolaidd gan dîm y prosiect.

Archwiliadau ynni'r Ymddiriedolaeth Garbon

Yn ystod prosiect Eginiad Creu Cymru, rydym wedi datblygu perthynas waith ardderchog ag Ymddiriedolaeth Garbon Cymru. Mae hyn wedi arwain at gynnal archwiliadau ynni mewn 13 o ganolfannau o blith ein grŵp peilot o 18. Mae'r adroddiad cysylltiedig hefyd wedi cynhyrchu rhai data rhagorol yn ogystal â darparu rhestrau gwirio a phwyntiau gweithredu i'r canolfannau sydd wedi eu trosi'n welliannau amgylcheddol mesuradwy sylweddol. Gallwch weld copi o'r adroddiad yn Atodiad 1.

Yn ogystal â'r archwiliadau ynni, rydym wedi cydweithio â'r Ymddiriedolaeth Garbon ar drefnu digwyddiad a gynhaliwyd yng Nghanolfan Mileniwm Cymru i edrych ar reoli digwyddiadau cynaliadwy. Mae'r Ymddiriedolaeth Garbon wedi darparu cefnogaeth ychwanegol i 3 canolfan gyfranogol wrth ddadansoddi a lleihau eu biliau ynni ac wedi cyfrannu'n sylweddol i'n digwyddiad olaf ym mis Mehefin 2014.

Sesiynau 1 i 1

Rydym wedi darparu sesiynau cymorth 1 i 1 i bob un o'r 18 o theatrau a chanolfannau celfyddydau cyfranogol – y rhan fwyaf dros y ffôn – gan nodi a rhoi'r gefnogaeth angenrheidiol ar gyfer amcanion sefydliadol penodol. Ar ddechrau'r prosiect, cynhaliodd Julie's Bicycle gyfres o sesiynau 1 i 1 wyneb yn wyneb gyda'r theatrau a'r canolfannau celfyddydau roeddem wedi'u nodi fel rhai oedd yn wynebu'r heriau mwyaf.

Cyfathrebu drwy e-bost

Buom yn cyfathrebu drwy e-byst rheolaidd i dynnu sylw at gyfleoedd, gwybodaeth, digwyddiadau a'r pethau a ddysgwyd â'n holl gyfranogwyr. Fe wnaethon ni greu 4 grŵp e-bost yn cynnwys y grwpiau staff canlynol: marchnata, technegol, cyfleusterau ac arweinwyr prosiect. Roedd yr e-byst hyn yn cadw cyfranogwyr yn hysbys am y prosiect gan sicrhau bod Eginiad Creu Cymru'n derbyn sylw rheolaidd gan y canolfannau cyfranogol.

Pecyn Cymorth

Datblygwyd pecyn cymorth Cymraeg a Saesneg gennym i theatrau a chanolfannau celfyddydau yng Nghymru i ymdrin â'r meysydd canlynol:
Ymdrefnu; defnyddio a chyflenwi ynni; gwastraff ac ailgylchu; dŵr a dŵr gwastraff; cynhyrchu; teithio a thrafnidiaeth; a chaffael. Roedd y pecyn cymorth hefyd yn cynnwys ffeithlenni, rhestrau gwirio ac offer eraill i gynorthwyo sefydliadau wrth ddatblygu cynlluniau gweithredu a pholisïau cynaliadwyedd.

Gweithgarwch Cyfranogwyr

Mae cyfranogwyr wedi cofnodi amrywiaeth o weithgareddau dros y 12 mis diwethaf sy'n gysylltiedig â phrosiect Eginiad. Fe'u dangosir yn y tabl isod. Mae eisoes gan nifer o ganolfannau cyfranogol raglenni cynaliadwyedd helaeth, felly nid yw'r gweithgarwch yma'n cynrychioli ystod gyflawn y gwaith sy'n digwydd ar draws y grŵp ond mae'n cynrychioli'r hyn oedd, yn nhyb y cyfranogwyr, yn ychwanegol yn sgil Eginiad.

Canolfannau	Gweithgareddau
Canolfan Ddiwylliant a Chynadledda'r Metropole	• Rhoi argymhellion archwiliad ynni'r Ymddiriedolaeth Garbon ar waith
Canolfan Mileniwm Cymru, Caerdydd	• Yn newid goleuadau'r cyntedd i rai LED • Creu tîm gwyrdd • Ysgrifennu polisi cynaliadwyedd cyhoeddus • Monitro defnydd bob hanner awr • Deall BMS • Yn edrych ar ddefnyddio system suddfannau • Yn edrych ar osod paneli solar
Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth	• Wedi sefydlu systemau monitro • Yn edrych ar ailgylchu/bancio penodol • Yn ymgorffori cynaliadwyedd i'r datganiad cenhadu • Rhoi argymhellion archwiliad ynni'r Ymddiriedolaeth Garbon ar waith.
Chapter	• Wedi cyflwyno papur a phapur toiled ailgylchedig • Yn cydweithio â WRAP ynglŷn â gwastraff bwyd • Argraffu llai o gylchgrawn Chapter • Wedi cyflwyno gorsafoedd ailgylchu a biniau gwastraff bwyd mewn swyddfeydd ac ystafelloedd a logir • Paneli solar wedi'u gosod • Wedi gosod synwyryddion symudiad ac amseryddion ar oleuadau • Gosod gwydr dwbl • Pwyntiau gwyrdd ar gerdyn CLIC i gwsmeriaid sy'n teithio gyda'r bws /ar droed/ar feic • Cysgodfeydd beic wedi'u codi • Partneriaeth â Renault i ddefnyddio fan drydan • Gardd gymunedol – pliciadau Chapter hefyd yn darparu compost

	• Casgenni dŵr yn yr ardd gymunedol • Yn ceisio trefnu bod cyfrifiaduron yn cael eu diffodd bob nos
Galeri	
Glan yr Afon	• Wedi adnewyddu seliau'r drysau • Inswleiddio'r holl bibellau noeth • Goleuadau LED ar yr islawr a goleuadau ynni-effeithlon wedi'u gosod drwy'r adeilad • Rheolaethau gwerthu i oergelloedd/peiriannau • Tystysgrif Ynni i'w Harddangos (DEC) wedi'i chael • Ailgylchu bwyd wedi'i gyflwyno • Mannau ailgylchu ar gael ar hyd yr adeilad • Goleuadau LED ar gyfer prif ofod y theatr • Cynllun theatr cynaliadwy i'r theatr stiwdio – yn ystyried ei roi ar waith • Ailgylchu papur yn y swyddfa • Yn cyflwyno mwy o finiau, caniau a photeli i'r adeilad • Rhoi argymhellion archwiliad ynni'r Ymddiriedolaeth Garbon ar waith
Neuadd Dewi Sant	• Defnyddio'r argraffydd yn llai • Uwchraddio gwaredu gwastraff • Mae gwenyn ar y to erbyn hyn • Troethfeydd di-ddŵr • LED lle bo'n bosibl • Monitro defnydd cyfleustodau • Gostwng yr aerdymheru 1.5% • Yn aros cyllid ar gyfer system BMS newydd • Yn aros cyllid am oleuadau LED newydd • Torri argraffiad un llyfryn gwybodaeth • Torri maint y llyfryn gwybodaeth • Torri llyfrynnau gwybodaeth penodol ar gyfer gwahanol fathau o ddigwyddiad • Peidio â dosbarthu llyfrynnau gwybodaeth • Cau'r adeilad y tu allan i oriau perfformio er mwyn lleihau defnydd ynni • Rhoi argymhellion archwiliad ynni'r Ymddiriedolaeth Garbon ar waith
Neuadd Dwyfor	
Sherman Cymru	• Datblygu polisi a chynllun gweithredu i ategu'r gwelliannau a systemau presennol • Rhoi argymhellion archwiliad ynni'r Ymddiriedolaeth Garbon ar waith
Theatr Brycheiniog	• Yn gweithio ar welliannau i'r adeilad y bydd anghenion cynaliadwyedd yn dylanwadu'n drwm arnynt • Wedi cydweithio â'r Ymddiriedolaeth Garbon i leihau costau biliau ynni ac wedi lleihau defnydd

	drwy fonitro ● Rhoi argymhellion archwiliad ynni'r Ymddiriedolaeth Garbon ar waith
Theatr Hafren	● Gosod goleuadau LED ● Wedi datblygu ailgylchu bwyd ● Wedi newid caffael ar gyfer cyflenwyr a defnyddio bwyd lleol yn arbennig ● Buddsoddiad mewn adeiladu newydd – gan weithio ar safon Passivhaus ● Gosod bwyler newydd sy'n fwy effeithlon
Theatr Mwldan	● Rhoi argymhellion archwiliad ynni'r Ymddiriedolaeth Garbon ar waith
Theatr Park & Dare	● Cydweithio â'r awdurdod lleol ynglŷn â rheolaethau BMS ● Rhoi systemau monitro ar waith ● Rhoi argymhellion archwiliad ynni'r Ymddiriedolaeth Garbon ar waith
Theatr y Congress	● Defnydd trydan wedi'i leihau'n sylweddol drwy weithredu system fonitro ● Symud at system ailgylchu fwy effeithiol ac effeithlon a chontractwr newydd ● Ymgyrch ymwybyddiaeth ymysg y staff ● Rhoi argymhellion archwiliad ynni'r Ymddiriedolaeth Garbon ar waith
Theatr y Fwrdeistref	● Cynaliadwyedd wedi'i gynnwys yn y cynllun busnes ● Cyfrifoldebau cynaliadwyedd wedi'u cynnwys mewn swydd-ddisgrifiadau ● Monitro defnydd trydan dros 9 mis sy'n gysylltiedig â defnyddio'r theatr gan gychwyn ym mis Gorffennaf 2014 ● Prif ystyriaeth wrth ddatblygu briff ar gyfer astudiaeth ddichonoldeb mewn cysylltiad â datblygu cyfalaf yr adeilad ● Rhoi argymhellion archwiliad ynni'r Ymddiriedolaeth Garbon ar waith
Theatr y Torch, Aberdaugleddau	● Wedi cydweithio â'r Ymddiriedolaeth Garbon i leihau costau biliau ynni ac wedi lleihau defnydd drwy fonitro ● Rhoi argymhellion archwiliad ynni'r Ymddiriedolaeth Garbon ar waith
Y Neuadd Les	● Bwyler a system BMS newydd yn eu lle ● Yn ystyried inswleiddio ● Rhestrau gwirio arbed ynni ar gyfer Blaen y Tŷ ● Gosod goleuadau LED i gymryd lle'r rhai presennol ● Yn codi ymwybyddiaeth sy'n arwain at gystadleuaeth arbed ynni gadarnhaol rhwng y staff ● Rhannu prosiect Eginiad gyda staff Blaen y Tŷ ● Yn ystyried yr effaith allanol ● Rhoi argymhellion archwiliad ynni'r

	Ymddiriedolaeth Garbon ar waith
Y New Theatre	• Cyfleu a rhannu statws a phroses y Ddraig Werdd • Ystyried polisi cynaliadwyedd penodol i'r ganolfan • LED lle bo'n bosibl • Monitro defnydd cyfleustodau • Rhoi argymhellion archwiliad ynni'r Ymddiriedolaeth Garbon ar waith

Ar ben hynny, amcangyfrifir mai cyfanswm yr arbedion ynni a wnaed gan y canolfannau sy'n cymryd rhan yn archwiliadau ynni'r Ymddiriedolaeth Garbon yw 299 tunnell o $C0_2$ gyda'r rhan fwyaf o'r canolfannau eisoes yn perfformio'n well na meincnod y diwydiant.

Newid Ymddygiad

Bu'r rhan fwyaf o'r newid ymddygiad sydd wedi'i gofnodi yn y prosiect hwn wedi ymwneud â lleihau'r defnydd ynni sy'n gysylltiedig ag ymddygiadau carbon-arferol. Mae wedi bod yn ddiddorol gweld bod cyfranogwyr wedi sôn am weld gwahaniaeth rhwng agweddau staff yn eu cartrefi ac yn y gwaith a cheisio deall sut orau i elwa ar gymhelliad cynhenid yn hytrach nag arwain drwy wobrwyo.

Mae Eginiad wedi gweithredu fel catalydd i'r canolfannau cyfranogol i ddechrau trafodaeth â staff a chodi ymwybyddiaeth o sut gall ymddygiad gael effaith uniongyrchol ar y busnes. Dyma fu'r ffordd symlaf i'n cyfranogwyr gael effaith uniongyrchol ar eu hôl troed carbon oherwydd i lawer un, mae'r newidiadau technegol neu'r prosiectau adeiladwaith y tu hwnt i'w cyrraedd o ran adnoddau.

Nodau'r prosiect hwn, fodd bynnag, oedd mynd cam ymhellach o ran newid ymddygiad gan edrych yn fwy ar y newid diwylliant sydd ei angen mewn sefydliadau i wir sefydlu cynaliadwyedd. Anodd iawn yw mesur hyn a theimlwn y bydd unrhyw effaith yn y maes hwn hefyd y tu allan i amserlen ein prosiect 12 mis. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth anecdotaidd gyntaf yn awgrymu bod sefydliadau'n dechrau meddwl yn wahanol.

Mae adborth a sgyrsiau â swyddogion arweiniol y prosiect o fewn sefydliadau'n awgrymu newid yn y syniadaeth. Mae materion cynaliadwyedd yn cael eu codi ar lefel uwch-reolwyr a byrddau ac mae staff yn ystyried cynaliadwyedd wrth gaffael gwasanaethau ar gyfer prosiectau. Adegau gwych yw amserau newid neu adnewyddu i sefydlu diwylliannau sefydliadol newydd felly mae cyfleoedd i ailddatblygu cyfalaf neu ar gyfer newidiadau mawr o ran staff sydd wedi effeithio ar rai o'n cyfranogwyr yn ystod ein prosiect ac sydd wedi'i gwneud yn anodd gweithredu rhai systemau newydd neu gynlluniau gweithredu o fewn ein hamserlen, hefyd wedi bod yn gyfleoedd i symud ymlaen mewn meysydd llai amlwg.

Lleihau $C0_2$

Roedd cyfnod cyntaf Eginiad Creu Cymru'n cynnwys cwmpasu'r potensial i greu gwaelodlin ôl troed carbon y gellid ei ddefnyddio i fesur cynnydd y canolfannau yn y dyfodol.

Yn ystod y cyfnod ceisiadau, crëwyd amcangyfrif gwaelodlin cychwynnol gyda gwybodaeth gan 14 o'r 18 o ganolfannau peilot gan ddefnyddio gofod llawr ochr yn ochr â meincnodau Julie's Bicycle ar gyfer y sector. Y ffigwr a grëwyd oedd 7245

tunnell o $C0_2e$. Yn ystod y prosiect hwn, bu'n fwriad gennym gydweithio'n agos â'r 18 canolfan i greu olion traed go iawn seiliedig ar ddata go iawn.

Mae ffigyrau gwaelodlin cywir wedi'u pennu ar gyfer 14 o'r 18 canolfan o ganlyniad i archwiliadau ynni'r Ymddiriedolaeth Garbon. Yn ein cynlluniau gwreiddiol, roeddem wedi rhagweld casglu a monitro ar ran y canolfannau a chydweithio â nhw i ddadansoddi a rhannu'r data hyn drwy Creative IG Tools Julie's Bicycle. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae 7 canolfan wedi cyflwyno data i Creative IG Tools gyda 2 arall wedi creu cyfrifon ond heb gyflwyno data eto. Lle mae monitro'n digwydd, mae cyfranogwyr wedi datblygu eu systemau monitro eu hunain ac mae rhai'n defnyddio Creative IG Tools at adrodd a dadansoddi'r data, sef prif ddiben yr offeryn. Wrth ddatblygu unrhyw brosiect yn y dyfodol, bydd sefydlu arferion monitro da ar hyd a lled y sector yn allweddol. Mae offer fel a gynigir gan system IG Tools Julie's Bicycle yn gweithio'n dda ond maent yn cael eu gweld yn llafurddwys gan theatrau a chanolfannau celfyddydau llai o faint sydd heb gymaint o adnoddau.

Yn amlinelliad ein prosiect gwreiddiol, roeddem am fedru edrych ar effaith gwastraff a dŵr yn ogystal ag ynni. Mae'r heriau rydym wedi'u hwynebu wrth ymgysylltu â chanolfannau i fonitro cyfleustodau sylfaenol wedi golygu nad ydym wedi datblygu ein gwaith i'r graddau roeddem efallai wedi gobeithio yn y meysydd hyn. Rydym yn gwybod bod nifer o gyfranogwyr wedi gwneud newidiadau sylweddol i'w contractwyr a systemau ailgylchu, gan gynnwys gwastraff bwyd, ond does gan yr un o'r cyfranogwyr systemau sy'n ein galluogi i gasglu a dadansoddi data yn y maes hwn.

5. Manteision Eraill

Y tu hwnt i nodau ac amcanion craidd y prosiect hwn, fel a soniwyd uchod, mae cyfranogwyr wedi adnabod nifer o fanteision ychwanegol yn sgil prosiect Eginiad Creu Cymru.

Cwmpas Cenedlaethol

Mae natur genedlaethol y prosiect hwn wedi'i nodi fel elfen allweddol i'r cyfranogwyr. Roedd bod yn rhan o raglen ehangach yn rhoi hyder iddynt yn eu sefydliadau eu hunain i symud yr agenda gynaliadwyedd yn ei blaen. Roedd hefyd yn rhoi pwysau ychwanegol a hygrededd i'w safbwynt gyda rhanddeiliaid. Mae'r mewnbwn allanol wedi rhoi momentwm i brosiectau oedd eisoes ar waith ac mae bod yn rhan o gymuned yn mynd i'r afael â'r materion hyn wedi helpu cyfranogwyr i deimlo eu bod yn derbyn cefnogaeth ac yn gallu cyflawni mwy.

Etifeddiaeth

Bydd yr adnodd digidol a grëwyd fel rhan o'r prosiect hwn yn adnodd allweddol i theatrau a chanolfannau celfyddydau yn y dyfodol. Mae pob cyfranogwr mewn cyfnod gwahanol ar ei daith ac mae gallu tynnu oddi ar yr adnoddau hyn pryd bynnag y mae eu hangen arno wedi cael ei ddisgrifio fel mantais allweddol. Roedd amserlen benodol iawn i'n prosiect felly bydd galluogi'r wybodaeth a'r arbenigedd a gasglwyd gennym i gael eu rhannu o hyd yn helpu i feithrin capasiti i'r dyfodol.

Prosiect cynhyrchu cynaliadwy

Mae cynaliadwyedd wedi'i sefydlu yng ngwaith ehangach Creu Cymru gyda'i haelodaeth, gyda chonsortia Dawns a Drama Creu Cymru'n arwain wrth ddatblygu dau brosiect cynhyrchu cynaliadwy. Mae defnyddio'r modelau hyn sydd eisoes ar waith wedi galluogi Eginiad Creu Cymru i ymgysylltu â grŵp ehangach na'r 18 o gyfranogwyr peilot ac i sefydlu cynaliadwyedd yn eu gwaith presennol yn hytrach na'i fod yn rhywbeth ychwanegol y mae'n rhaid i aelodau ei wneud.

Prosiect rhwydweithiau cynaliadwy

Rydym yn dal i ystyried datblygu'r rhwydweithiau cynaliadwyedd rhanbarthol fel cyfle i barhau'r dysgu a'r rhannu ymysg cymheiriaid sydd wedi bod yn rhan annatod o'r prosiect hwn. Rydym wedi cael cynnig gan Ganolfan Mileniwm Cymru i gynnal rhwydwaith yn ne Cymru ond rydym eto i sefydlu model a fydd yn gweithio ar draws rhanbarthau eraill neu i ymchwilio'n llawn i'r rhwydweithiau presennol y gallai aelodau elwa arnynt. Bydd sefydlu unrhyw rwydweithiau hefyd yn gofyn adnoddau ychwanegol.

6. Gwersi a ddysgwyd

Amrywiaeth y grŵp

Wrth alluogi'r grŵp peilot i wirfoddoli i gymryd rhan, daeth amrywiaeth eang o gyfranogwyr i'r fei. Cafodd hyn effaith ar y prosiect oherwydd yr amrywiaeth o ran maint a graddfa'r adnoddau, ond hefyd oherwydd y gwahaniaethau yn yr wybodaeth oedd eisoes ar gael o fewn sefydliadau. Roedd rhai canolfannau wedi mynd ymhellach o lawer nag eraill o ran eu syniadaeth a'u gweithgarwch o gwmpas cynaliadwyedd.

Er, mewn rhai ffyrdd, y gallem droi hyn yn rhywbeth cadarnhaol drwy rannu sgiliau a dysgu gan gymheiriaid, teimlwn y gallai rhaglenni yn y dyfodol gael mwy o effaith drwy glystyru canolfannau tebyg â'i gilydd.

Golygai amrywiaeth y grŵp fod y rhannau mwyaf generig o'r prosiect fel y pecyn cymorth a'r gweminarau heb weithio cystal oherwydd bod gan gyfranogwyr gwestiynau penodol iawn ar draws amrywiaeth eang o themâu. Hefyd, roedd rhai cyfranogwyr eisiau mwy o gefnogaeth a gwybodaeth ragarweiniol sylfaenol tra mai herio ac estyn oedd eu hangen ar rai eraill. Gallai dod â grwpiau sydd â buddiannau tebyg at ei gilydd, wyneb yn wyneb, gan ddefnyddio dull a dargedir yn fwy, weithio'n well i raglenni yn y dyfodol.

Casglu a mesur data

Mae casglu data sy'n gyson ac yn ddefnyddiol oddi wrth y cyfranogwyr wedi bod yn her fawr i'r prosiect hwn. Nid oedd gan y mwyafrif systemau monitro a chofnodi yn eu lle ar y pryd ac mewn rhai achosion, mae wedi cymryd y prosiect ar ei hyd i sefydlu'r systemau hyn, oherwydd pwysau a blaenoriaethau cystadleuol.

Mae bod yn eiriol dros fonitro a dangos yr angen amdano wedi bod yn elfen allweddol o'r prosiect hwn. Daeth cyflwyno'r achos busnes a dangos sut y gellir gwneud arbedion effeithlonrwydd yn hawdd yn bwysicach na chasglu'r data. Lle nad oedd cyfranogwyr yn monitro defnydd ynni, rydym wedi gofyn iddynt edrych ar gofnodion eraill megis biliau cyfleustodau i ystyried a yw rhai o'r newidiadau ymddygiad y maent wedi'u gwneud wedi cael effaith o ran costau. Bu tystiolaeth fel hyn yn offeryn defnyddiol wrth ddangos sut y gallai monitro fod yn sail i arbedion effeithlonrwydd eraill pe bai'n cael ei roi ar waith.

Wrth ddatblygu unrhyw brosiect yn y dyfodol, bydd sefydlu arferion monitro da ar hyd y sector yn allweddol. Mae offer fel system Creative IG Tools Julie's Bicycle yn gweithio'n dda ond maent yn cael eu gweld yn llafurddwys gan theatrau a chanolfannau celfyddydau llai o faint sydd heb gymaint o adnoddau.

Rhiant-sefydliadau

Canolfannau oedd yn rhan o sefydliad mwy o faint oedd nifer o'r cyfranogwyr y buom yn cydweithio â nhw – prifysgol neu awdurdod lleol, er enghraifft. Yn yr achosion hyn, cawsom fod y berthynas rhwng y rhiant-sefydliad a'r ganolfan gyfranogol yn hynod arwyddocaol oherwydd, yn llawer o'r sefyllfaoedd hyn, roedd data ynni'n cael eu casglu'n ganolog ac roedd contractau ar gyfer rheoli gwastraff, cyfleustodau neu drafnidiaeth i gyd yn cael eu rheoli gan weithdrefnau caffael canolog a oedd, yn aml, yn ddatgysylltiedig â'r ffordd yr oedd y canolfannau'n gweithredu o ddydd i ddydd. Oherwydd y datgysylltu hwn, nid oedd yn hawdd bob amser i'r sefydliadau dan sylw ddeall yr arbedion effeithlonrwydd ac eraill.

Yn nifer o'r achosion hyn, rhan mor fechan o'r rhiant-sefydliad ehangach yw'r theatrau a'r canolfannau celfyddydau nad ydynt yn flaenoriaeth o ran gostyngiadau carbon ac felly, efallai na fyddant yn elwa ar fuddsoddiad cyfalaf na chefnogaeth ychwanegol wrth fonitro defnydd ynni. Fodd bynnag, ar yr un pryd, un o brif wynebau cyhoeddus y sefydliadau hyn yw'r adeiladau yma'n aml lle mae llawer iawn o ryngweithio â'r cyhoedd yn digwydd gan olygu mai dyma'r lleoedd perffaith i ymgysylltu â chymunedau a chwsmeriaid yn y math yma o waith ac i ddweud stori gynaliadwyedd rymus.

Lleihau carbon

Er bod y ffigyrau gwaelodlin ar gyfer defnydd $C0_2$ wedi'u pennu, mae wedi cymryd llawer yn hirach i ganolfannau ddatblygu systemau monitro penodol. Mae hyn yn golygu bod olrhain gostyngiadau ac arbedion yn ystod y prosiect wedi bod yn anodd iawn. Ar hyn o bryd, rydym yn gwybod nad oes o hyd gan o leiaf 25% o'r cyfranogwyr fecanweithiau ar gyfer monitro rheolaidd ac felly mae unrhyw ostyngiadau sy'n cael eu gwneud wedi'u seilio ar gymharu ffigyrau blynyddol nad ydynt yn darparu gwir gymhariaeth debyg â'i debyg.

Gyda rhan o'r prosiect hwn yn canolbwyntio ar newid ymddygiad, daeth yn amlwg hefyd yn eithaf buan fod yna gyfyngiadau ar faint o garbon y gellid ei arbed fel hyn.

Bydd angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol ar rai o'n cyfranogwyr o ran adeiladwaith a thechnoleg er mwyn gwneud gostyngiadau sylweddol yn eu hôl troed carbon. Ac er bod Eginiad wedi darparu cyfle i gael gwybod am wahanol linynnau ariannu a allai gefnogi'r gwaith hwn, mewn amserau pryd mae cyllid yn dynn, mae'n anodd gweld sut bydd modd symud ymlaen yn y maes hwn.

O ran sefydlu diwylliant cynaliadwyedd yn ein sefydliadau cyfranogol, lleihau carbon yw un o'r nodau yn y pen draw, ond bydd gostyngiadau go iawn yn cymryd yn hirach nag amserlen prosiect fel Eginiad Creu Cymru. Bydd hyn yn her i gyllidwyr a gwneuthurwyr wrth fynd ymlaen. Mae'r prosiect hwn wedi ein harwain i gredu bod angen edrych ymhellach ar adnabod gwir fesurau arferion cynaliadwyedd.
.

Ymgysylltu

Bydd unrhyw sefydliad yn wynebu nifer o heriau o ddydd i ddydd ac yn gweithio mewn cyd-destun sy'n newid o hyd. Rydym wedi gweld bod blaenoriaethau a phwysau sefydliadol y tu hwnt i'n rheolaeth megis ailstrwythuro, ymgymryd â gwaith newydd a symudiadau o ran cyllid, wedi golygu na allodd rhai sefydliadau ddilyn eu hymrwymiad i'r prosiect drwodd i'r pen.

Er bod hyn yn ddealladwy, mae'r pwysau hyn o ran amser ac adnoddau ynghyd â'r cefndir o gyni economaidd, yn creu cyd-destun sy'n debygol o newid yn fuan ac mae'n anodd gweld sut gellir goresgyn y rhwystrau hyn heb symudiad sylweddol ym mlaenoriaethau'r sefydliadau eu hunain. A dyma'r union gyd-destun y gallai mentrau cynaliadwyedd megis Eginiad Creu Cymru helpu sefydliadau i fynd i'r afael â nhw, gan ei fod yn dangos y ffordd i gydnerthedd a'r gallu i ymgyfaddasu.

Partneriaethau

Bu gweithio mewn partneriaeth yn hollbwysig yn y prosiect hwn ac mae sicrhau bod partneriaethau'n cael eu sefydlu'n briodol gydag ymrwymiad gan sefydliadau yn

hytrach nag unigolion yn bwysig dros ben. Un o bartneriaid sefydlu'r prosiect oedd Prifysgol Caerdydd a ddygai arbenigedd ym maes newid ymddygiad gan arwain ar yr elfennau gwerthuso a monitro o'r prosiect. Daeth y bartneriaeth yma i ben oherwydd i ganolfan BRASS gau'n annisgwyl, gan effeithio ar y bartneriaeth gan nad oedd yr academydd oedd yn ymwneud â'r prosiect bellach yn cael ei gyflogi gan y Brifysgol.

Cymerodd gryn dipyn o amser i ddatgordeddu cymhlethdodau'r sefyllfa, ond yn y pen draw, ni allai Prifysgol Caerdydd barhau i gefnogi'r peilot. Cafodd yr amser a gollwyd wrth ddatrys y broblem hon a cholled y sgiliau a'r arbenigedd yr oedd y Brifysgol wedi'u haddo i'r prosiect ynghynt effaith sylweddol ar siâp a hyd a lled y prosiect yn gyffredinol ynghyd ag ar ei adnoddau ariannol a dynol, gyda gweddill tîm y prosiect yn ymgymryd â gwaith ychwanegol.

Fodd bynnag, ar yr un pryd, mae'r prosiect wedi sefydlu perthynas waith ardderchog â'r Ymddiriedolaeth Garbon, sydd wedi esgor ar ymyriadau annisgwyl ac wedi cael effaith sylweddol (a hynod gadarnhaol) yn gyffredinol.

7. Y Camau Nesaf

Peilot oedd y prosiect hwn ac mae wedi bod yn bwysig i ni ddefnyddio gwybodaeth a'r arbenigedd y prosiect 12 mis hwn i ystyried beth allai ddigwydd nesaf. Mae Eginiad Creu Cymru wedi dangos i ni fod cryn dipyn o waith yn digwydd ar draws y sector cyflwyno o ran lleihau allyriadau carbon a sefydlu cynaliadwyedd yn niwylliant ein sefydliadau. Fodd bynnag, mae hefyd lawer o heriau a chwestiwn cymhleth yw sut i symud ymlaen a gwneud yr ymyriadau mwyaf effeithiol i'r dyfodol.

Awgryma llawer o'r dystiolaeth o'r peilot hwn y byddai prosiectau teilwredig llai o faint sy'n ymdrin â materion penodol gan ddod ynghyd â grwpiau llai o ganolfannau sy'n debyg o ran eu cyd-destun a'u hadnoddau'n ffordd fwy effeithiol o sefydlu ymddygiadau a thechnolegau sy'n arbed carbon. Fodd bynnag, ceir hefyd rai prosiectau mwy a allai fod o fudd i'r sector yn ei gyfanrwydd na allai gael eu harwain ond ar lefel strategol ac a fyddai angen sefydliad fel Creu Crymu i'w harwain a'u rheoli. Gallai hyn fod yn gynllun ailgylchu i Gymru gyfan, er enghraifft, ar gyfer celfi a setiau theatraidd.

I Greu Cymru, rhaid mai'r camau nesaf yw gweithio gyda gwneuthurwyr polisi a'n haelodau i fod yn glir ynghylch y blaenoriaethau a beth yn union rydym eisiau ei gyflawni mewn unrhyw brosiect i'r dyfodol. Yn ein barn ni, ceir rhai materion allweddol y mae angen eu datrys er mwyn i unrhyw gorff o waith yn y maes hwn fod yn ystyrlon.

Terminoleg

Bydd bod yn glir am derminoleg yn bwysig wrth fynd ymlaen; gydag unrhyw waith yn y dyfodol, bydd angen i ni fod yn glir ynglŷn â'r geiriau a'r cysyniadau rydym yn eu defnyddio gan sicrhau bod gennym ddealltwriaeth gyffredin ar y dechrau. Rydym wedi dod ar draws amrywiaeth o eiriau sydd weithiau wedi cael eu defnyddio'n gyfnewidiol: Cynaliadwyedd, Cydnerthedd, y Gallu i Ymgyfaddasu. Rydym hefyd wedi bod yn gweithio gyda chysyniadau fel olion traed carbon y gellir eu mesur mewn myrdd o wahanol ffyrdd. Er mwyn i unrhyw waith yn y dyfodol fod â thargedau ystyrlon a bod yn berthnasol i'n haelodau a'r cyhoedd ehangach, bydd angen i ni fod yn glir am ddiffiniadau.

Mesur

Drwy gydol ein prosiect mae mesur wedi bod yn faes heriol. Yn ogystal â'r rhwystrau rydym wedi eu hwynebu, teimlwn y bydd yn bwysig mewn unrhyw brosiect yn y dyfodol sicrhau bod mesur yn gyson ac mae hyn yn ysgogi nifer o gwestiynau ehangach wrth fynd yn ein blaenau. Pa gyfrifiad rydym yn ei ddefnyddio i gyrraedd ein hôl troed carbon? Beth rydym yn ei gynnwys ac yn ei hepgor? Ai mesur lleihau carbon yw'r ffordd orau o fesur mwy o gynaliadwyedd? A oes modd safoni cynaliadwyedd?

Gwe gymhleth o gysylltiadau yw cynaliadwyedd y mae'n anodd ei deall neu'i dal ar ffurf nifer y tunelli o CO2 a ddefnyddir. Mae hwn hefyd yn gwestiwn i wneuthurwyr polisi a chyllidwyr wrth fynd yn eu blaenau pan fyddant yn ystyried blaenoriaethau. Ai drwy ostyngiad mewn CO2 yn unig y mae ymrwymiad i gynaliadwyedd yn cael ei ategu neu a oes mesuriadau eraill y gallwn eu defnyddio?

Arweiniad

Mae angen arweiniad yn y maes hwn a gallai fod yn fuddiol iawn cydweithio â sefydliadau sydd eisoes yn dangos arferion da er mwyn eu hannog i ymgymryd â rôl arweiniol yn y sector. Mae hefyd angen arweiniad gan sefydliadau cenedlaethol ac ambarél fel Creu Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru. Bydd codi proffil cynaliadwyedd ar draws y sector ac annog sefydliadau i adrodd eu straeon cynaliadwyedd yn helpu i sicrhau bod y mater hwn yn flaenoriaeth ac yn egwyddor bwysig yn y gwaith rydym yn ei wneud.

9. Cloi

Mae angen pendant am fwy o ddealltwriaeth o gynaliadwyedd fel proses nid rhestr wirio, fel ffordd o wneud pethau nid cyfres o bethau i'w gwneud. Mae cysyniad o newid ymddygiad amgylcheddol yn ffordd syml ac o bosib gost-effeithiol o leihau effeithiau amgylcheddol sefydliadau. Fodd bynnag, mae'n hynod anodd ac yn cymryd amser ac egni unigolion - adnoddau sy'n brin mewn theatrau a chanolfannau celfyddydau.

Nod prosiect Eginiad Creu Cymru oedd creu etifeddiaeth, gan gynnwys newid ymddygiad parhaus yn y sector cyflwyno. Roeddem am edrych ar y rhwystrau yr oedd theatrau a chanolfannau celfyddydau yn eu hwynebu ac adnabod yr offer a'r mecanweithiau priodol i'w cefnogi wrth oresgyn yr heriau hyn. Rydym wedi sefydlu peth wmbredd o arferion da ar draws ein grŵp peilot. Bydd cydnabod pwysigrwydd adrodd y stori gynaliadwyedd hon, rhannu arferion da a chydweithio â chymheiriaid i rannu sgiliau, profiad ac arbenigedd er mwyn meithrin capasiti a chydnerthedd yn y sector yn allweddol i lwyddiant y celfyddydau yng Nghymru yn y dyfodol. Byddwn yn edrych i barhau i ymgorffori cynaliadwyedd yn ein harferion gwaith ein hunain a gwneud yn siŵr mai dyma fater sy'n cael ei ystyried yn ein gwaith beunyddiol gyda'n rhwydwaith o aelodau.

Atodiadau

Atodiad 2: Agenda; Eginiad yn cyflwyno: Cydnerthedd yn Wyneb Her, Creu Cymru

Dydd Gwener 13 Medi 2013

9.30-11.00

Mae prosiect Eginiad Creu Cymru yn cydweithio â 18 o theatrau a chanolfannau ar draws Cymru i ystyried yr heriau a'r cyfleoedd sydd ynghlwm â gwneud cynaliadwyedd yn rhan annatod o'u syniadaeth a'u gwaith. Mae'r prosiect hwn yn canolbwyntio ar gynaliadwyedd cymdeithasol ac economaidd yn ogystal ag amgylcheddol. Y nod yw achosi newid ymddygiad a defnyddio'r rhwydwaith hwn i effeithio ar feddwl ehangach ym maes y Celfyddydau a Chynaliadwyedd.

Bwriad y sesiwn hon yw edrych ar y ffordd y gall rhwydweithiau a chydweithredu helaethu arferion cynaliadwy. Bydd cyfraniadau gan Mark Godber o Arts Admin – yn siarad am brosiect Imagine 2020 – yn ogystal â mwy am brosiect Eginiad Creu Cymru. Dyma gyfle i rannu'r arferion gorau a thrafod rhai o'r heriau penodol sy'n wynebu theatrau a chanolfannau celfyddydau.

Creu Cymru yw'r asiantaeth ddatblygu ar gyfer theatrau a chanolfannau celfyddydau yng Nghymru.

Ariennir Eginiad Creu Cymru gan Lywodraeth Cymru drwy Gronfa Cefnogi Byw'n Gynaliadwy Amgylchedd Cymru.

Yn agored i bawb.

Pris: £6

Siaradwyr

Mark Godber; Cynhyrchydd Artistiaid yn Arts Admin

Catherine Langabeer; Cyfarwyddwr y Celfyddydau a Dirprwy Gyfarwyddwr yn Julie's Bicycle

Deborah Keyser; Cyfarwyddwr Creu Cymru

Atodiad 3:

Digwyddiad Olaf Eginiad Creu Cymru
3 a 4 Mehefin 2014
Canolfan y Dechnoleg Amgen, Machynlleth

AGENDA

3 Mehefin 2014

2.00 Cofrestru'n agor

2.45 Te a Choffi

3.00-5.00 Cyffes: Cyfle i'r holl gyfranogwyr rannu eu profiad – cadarnhaol a heriol. Sesiwn a hwylusir fydd hon a fydd yn edrych ar y siwrnai y mae pob sefydliad wedi'i gwneud gan annog rhannu a dysgu ymysg cymheiriaid. 120 o funudau

Byddwn yn casglu peth gwybodaeth gan gyfranogwyr cyn y digwyddiad i ategu'r sesiwn hon.

5.00 amser rhydd

6.00 Siaradwr gyda'r nos – Byddwn i gyd yn dod ynghyd yn y bar i gael diod a gwrando ar Sarah Woods, sgyrsiau am y Stori Sydd Gynnon ni a'r Stori Rydyn Ni Ei Heisiau: empathi, celf a newid diwylliannol. www.sarah-woods.co.uk 60 munud

7.00 Swper i'r Grŵp

4 Mehefin 2014

08.30 Brecwast

09.30 – 10.30 Teithiau o gwmpas CyDA a Chymorthfeydd Julie's Bicycle a'r Ymddiriedolaeth Garbon. Cyfle i fanteisio ar arbenigedd yr Ymddiriedolaeth Garbon a Julie's Bicycle mewn cymhorthfa 1 i 1 a/neu fynd ar daith o gwmpas CyDA. Hefyd, bydd digon o de a choffi ar gael i gefnogi siarad, cyfarfod a rhwydweithio.

10.30 Te a Choffi

10.45 Cyflwyniad: Paula Owen o Julie's Bicycle a www.paulaowenconsulting.co.uk yn siarad am Gynaliadwyedd a newid ymddygiad; pam mae pobl yn dweud un peth ond yn gwneud rhywbeth hollol wahanol 60 munud

12.00 Cinio

1.00 Gweithdy: Eich Stori Gynaliadwyedd (dan arweiniad yr Ymddiriedolaeth Garbon). Cyfle i gyfranogwyr dreulio amser yn meddwl am straeon eu sefydliadau; sut i gyfleu'ch gwaith i'r cyhoedd a'r rhanddeiliaid, pwy i'w gynnwys, sut i wneud hyn yn greadigol a manteision cyhoeddi'r wybodaeth hon. 90 munud

2.30 Egwyl te a choffi

2.45 Trafodaeth Banel: Dyma gyfle i gynrychiolwyr o'r Ymddiriedolaeth Garbon, Julie's Bicycle, Creu Cymru a chyfranogwyr Eginiad hel meddyliau am y prosiect 60 munud

3.45 Hwyl, diolch a ble nesa

4.30 Diwedd

Atodiad 4: Cofnod Ymgysylltu

Canolfan	Weminar 1	Weminar 2	Weminar 3	Cymorth 1 i 1	Gŵyl Cynllunio Llwyfan y Byd	Cynhadledd Creu Cymru	Digwyddiad Olaf Eginiad
Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth	✓			✓	✓	✓	
Theatr y Fwrdeistref, y Fenni	✓			✓		✓	✓
Chapter, Caerdydd	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Theatr y Congress, Cwmbrân		✓		✓		✓	
Galeri, Caernarfon						✓	
Theatr Hafren, Y Drenewydd				✓		✓	✓
Canolfan Ddiwylliant a Chynadledda'r Metropole, Abertyleri				✓		✓	
Neuadd Dwyfor, Pwllheli				✓			
Theatr Park & Dare, Treorci				✓		✓	
Sherman Cymru, Caerdydd		✓		✓		✓	✓
Neuadd Dewi Sant,				✓		✓	✓

Caerdydd							
New Theatre, Caerdydd				✓		✓	✓
Glan yr Afon, Casnewydd	✓		✓	✓	✓	✓	✓
Y Neuadd Les, Ystradgynlais				✓		✓	✓
Theatr Brycheiniog, Aberhonddu	✓	✓		✓		✓	
Theatr Mwldan, Aberteifi	✓	✓		✓		✓	
Theatr y Torch, Aberdaugleddau				✓	✓	✓	
Canolfan Mileniwm Cymru, Caerdydd	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓

Atodiad 5: Gwerthuso Gweminarau

Gwerthuso: Gweminar 1 – Cyflwyniad i Gynaliadwyedd

Mynychwyr:
Theatr Brycheiniog
Canolfan Mileniwm Cymru
Theatr Mwldan
Canolfan Gelfyddydau Chapter
Theatr y Fwrdeistref, y Fenni
Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth
Creu Cymru

Cwestiwn	Ymatebion
Beth roeddech chi'n gobeithio ei gael o fynychu'r weminar hon?	Cael fy atgoffa o beth sydd angen i fi ei wneud ar yr adeg yma o'r prosiect – a pham!
	Ychydig mwy o arweiniad ar beth fydd ynghlwm; cyflwyniad i weminarau
	1) Dysgu sut rydym yn gallu gwneud Theatr Brycheiniog yn fwy cynaliadwy 1) Deall cynllun y prosiect a pha adnoddau y gall Eginiad eu cynnig 2) Cael gwybod beth mae pobl eraill yn ei wneud 2) Gweld sut gallai effaith gwahanol ddulliau pob sefydliad gael eu rhannu –

	llwyddiannau, heriau, gwersi a ddysgir ac yn y blaen. 3) Profi fy ngweminar gyntaf a dysgu sut i ddefnyddio'r dechnoleg!
	Ymdeimlad bod y prosiect ar gychwyn a bod cydweithwyr yn ymgysylltu. Dyna ges i – gan deimlo'n hynod frwdfrydig yn sgil y cyflwyniad a'r cwestiynau a gododd a'r cyfleoedd a gynigiodd. A rhywbeth llai cyffrous: doeddwn i erioed wedi cymryd rhan mewn gweminar o'r blaen, felly ro'n i am weld y posibiliadau mae'n eu cynnig i rwydwaith Creu Cymru – sy'n helaeth yn fy marn i.
A ydych yn teimlo bod y weminar wedi cwrdd â'ch disgwyliadau? Os nad ydych, pam?	Yn hollol – go dda chi a diolch i Catherine
	Ydw, ond mae sawl cwestiwn gen i
	Fy mhrofiad cyntaf o weminar oedd hon ac fel unrhyw beth arall, mae'n cymryd ychydig sesiynau ymarfer i deimlo'n gyfforddus gyda math newydd o ryngweithio. Am wn i, roedd llawer ohonon ni yn yr un cwch gan fod lefel ymgysylltu'r grŵp yn llai nag arfer. Mi

	wnawn ni wella wrth ddod i arfer â hi!
	Fel dull hyfforddi, mae'n hynod bwerus yn fy marn i. Ac roedd cyflwyniad Catherine yn rhagorol. Roedd rhai'n dal yn ôl rhag cymryd rhan ragweithiol (h.y. yn cael eu gweld/clywed), ond dw i'n meddwl bod hynny yn ddealladwy. Ro'n i ychydig yn siomedig mai dim ond 8 allan o 18 o ganolfannau peilot oedd yn bresennol – gobeithio y bydd y lleill yn dal i fyny.
A gawsoch chi unrhyw broblemau technegol yn ystod y weminar (e.e. sain, gweledol ac yn y blaen)?	Naddo, bu'n gweithio'n dda iawn
	Naddo
	Ces i atsain ar fy nghyfrifiadur pan o'n i'n ceisio cyfrannu. Roedd yn well ar ôl diffodd y sain ond yna collais y teimlad bod 'na gynulleidfa – roedd hyn yn teimlo'n rhyfedd ar y dechrau!
	Do, peth sŵn canu ambell waith, a doedd hi ddim yn bosibl gweld pobl eraill. Ond dim byd ofnadwy. Ac roedd hi'n eitha hawdd ei defnyddio, a dweud y gwir.

Unrhyw sylwadau eraill?	Technoleg wych – drueni na alla i ei defnyddio yn y swyddfa, ond roedd yn gweithio'n iawn gartre
	Diolch i chi am eich amser a dw i'n edrych ymlaen at ymgysylltu â'r prosiect yn fwy gyda hyn.

Gwerthuso: Gweminar 2 – Rheoli Ynni a Gwastraff

Mynychwyr:
Theatr Brycheiniog
Canolfan Mileniwm Cymru
Theatr Mwldan
Canolfan Gelfyddydau Chapter
Sherman Cymru
Theatr y Congress

Cwestiwn	Ymatebion
Beth roeddech chi'n gobeithio ei gael o fynychu'r weminar hon?	Gwybodaeth a chanllawiau ynglŷn â rheoli gwastraff
	Gwybodaeth am beth i chwilio amdano wrth geisio gwella'r ffordd rydyn ni'n rheoli ynni a gwastraff.
	Trosolwg o ochr adeiladau a chyfleusterau'r prosiect a phrofiadau'r aelodau eraill.
	Gwell dealltwriaeth o'r gefnogaeth y gallwn ei disgwyl wrth ddatblygu a rhoi ein cynllun gweithredu ar waith.
	Mwy o wybodaeth am y prosiect a syniadau drwy glywed beth mae pawb arall yn ei wneud.

A ydych yn teimlo bod y weminar wedi cwrdd â'ch disgwyliadau? Os nad ydych, pam?	Hyd ryw raddau
	Gan ein bod ni newydd gychwyn ar y prosiect hwn, mi faswn wedi hoffi cael ymdriniaeth ddwysach â'r testun ond dw i'n meddwl y bydd y rhan fwyaf o hyn yn dod yn nes ymlaen yn y sesiynau un i un ac Archwiliad yr Ymddiriedolaeth Garbon.
	Trosolwg da o'r prosiect oedd y cyflwyniad. Roedd problemau difrifol gyda'n cysylltiad â'r rhyngrwyd felly doedden ni ddim yn gallu clywed llawer o'r drafodaeth.
	Ydw.
	Ydw.
A gawsoch chi unrhyw broblemau technegol yn ystod y weminar (e.e. sain, gweledol ac yn y blaen)?	Roedd yn anodd clywed gan y canolfannau cyfranogol gyda'r gwe-gamerâu
	Oedi yn y sain ambell waith.
	Do, gyda'r cysylltiad â'r rhyngrwyd o'n

	hochr ni.
	Naddo
	Naddo – heblaw ’mod i’n gorfod gadael cyn y diwedd
Unrhyw sylwadau eraill?	Mi faswn i wedi hoffi cael mwy o wybodaeth am y mesurau dim cost /cost isel sylfaenol y dylai pob safle busnes eu hystyried.
	Byddai gynnon ni dipyn o ddiddordeb mewn siarad â gweithgor System Rheoli Adeiladau neu mewn sefydlu un i wneud y gorau o’n system Rheoli Adeiladau ni

Gwerthuso: Gweminar 3 – Cynhyrchu Cynaliadwy

Mynychwyr:
Theatr Brycheiniog
Canolfan Mileniwm Cymru
Canolfan Gelfyddydau Chapter
Cynnal Cymru
Glan yr Afon

Cwestiwn	Ymatebion
Beth roeddech chi'n gobeithio ei gael o fynychu'r weminar hon?	Oedd, rhestr ardderchog oedd hi o bethau i'w gwneud a meddwl amdanynt: wedi'i strwythuro a'i chyflwyno'n dda.
A ydych yn teimlo bod y weminar wedi cwrdd â'ch disgwyliadau? Os nad ydych, pam?	Tu hwnt i bob disgwyl: do'n i ddim yn siŵr pa mor berthnasol fyddai hi i theatr/canolfan gelfyddydau sydd 'mond yn cydgynhyrchu 2/3 o bethau bob blwyddyn; ond mi oedd yn hynod berthnasol, a dweud y gwir, ac fe wnaeth pawb wnaeth ddim cymryd rhan golli stwff pwysig braidd. Roedd hefyd yn berthnasol iawn o ran cytundebau contractiol/atodol â chwmnïau gwadd a phartneriaid eraill, e.e. mae ein contract yn gofyn bod stampiau SWL a gwrthdan ac yn y blaen ar goed a dur, ond nid bod y coed yn dod o ffynhonnell gynaliadwy: fydd hi ddim yn anodd ychwanegu hynny!

A gawsoch chi unrhyw broblemau technegol yn ystod y weminar (e.e. sain, gweledol ac yn y blaen)?	Cafwyd cwpwl o broblemau gyda meicroffon Sholeh, ond 'mond cwpwl o weithiau digwyddodd e.
Unrhyw sylwadau eraill?	Ardderchog.